CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain IONAWR 2020

YN CAPEL GAD BODFFORDD

PRESENNOL:
Cyng R R Roberts (Cadeirydd) R M Roberts (Is-Gadeirydd) E Williams, D T Roberts, E W Roberts, J E Lewis, W R Parry, J Evans ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng H G Owen (Salwch) E D Owen, Cyng Sirol Mrs N Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 17eg RHAGFYR 2019 YN GYWIR. Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng E Williams.

Cyfarfod a Mr Dylan Owen Grwp Cynefin. Anghenion Tai fforddiadwy.
Yn anffodus Mr Owen yn methu a bod yn bresennol oherwydd anwyd. Bydd yn mynych cyfarfod Mis Chwefror am 6.30.

MATERION YN CODI O'R COFNODION.
Lon Bodwrog. Dim llawer o newid ar hyn o bryd, dipyn o'r tyllau wedi ei llenwi.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2019/337. Cais ol-weithredol ar gyfer creu lon mynediad yn:-
   Stad diwydiannol, Mona, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad. Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng W R Parry.

2. FPL/2019/344. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd ag estyniad i'r cwrtil yn:-
   Mathafarn, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng E Williams.

3. ENF/2019/188. Tor reolaeth Cynllunio Honedig.
   Tyn Pwll, Tynlon. Llawer o adeiliadau yn mynd ymlaen. Derbyn y wybodaeth.

PENDERFYNIADAU:

4. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

5. Uwch Beiriannydd Traffic a Pharcio.
   Ymateb cwyn gan Mrs Gwenno P Jones-Williams (Cyng J E Lewis.)
   Nid oes gan y Cyngor Sir y pwerau i atal cerbydau sydd ddim yn gysylltiedig gyda ystad dai rhag parcio yn y lleoliad. Ni fyddai modd cymryd camau i atal cerbydau yn berchen i Cyng J E Lewis. Ond mae yn rhaid iddynt fod yn gyfreithiol, hynnu yw gyda threth, ysiwrant a MOT cyfredol. Wedyn mater i'r Heddlu ydyw yn erbyn y perchennog.

6. Rheolwr Refeniw.
   Praeseptau Cynghorau Cymuned 2020 / 21. Band D 419.32.
   Y Clerc yn cyflwyno amcangyfrif i'r Cynghorwyr. Gyda o gwmpas £4,000.00 + mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd £2,000.00 yn cael ei drosglwyddo i Neuadd Goffa Bodwrog tuag at addasu ac ehangu. (Addewid) Mae gwaith yw wneud yn y Fynwent Gymunedol, Bodffordd, bydd angen arian at hyn. Ond gwneuthwyd darpariaeth am hyn llynnedd. Ni fydd ychwanegiad i gyflog i Clerc eleni. Dywedodd Cyng J E Lewis y dylai y Cyngor godi rhyw faint i gadw i fynnu a chwyddiant. Ar hyn o bryd nid oes dim byd amlwg i'w wneud. Trwy gynnig Cyng E W Roberts,

eilio Cyng E Williams gyda pawb yn unfrydol i £11,000.00 y flwyddyn, codiad o £550.00 (£10,450.00 2019 / 20.)

7. Swyddfa Etholiadol.
Cofrester Etholwyr ar gael. Gwybodaeth. Derbyn y Clerc wedi anfon ymlaen am gopi papur.

8. Swyddog Polisi.
FW: Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 22.1.20. Diweddariad. Toiledau Cyhoeddus ar Dreth Fusnes.
Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu eithrio adeiladau toiledau cyhoeddus pwrpasol yng Nghymru rhag talu ardrethi annomestig o 1af Ebrill 2020.
Derbyn.

GOHEBIAETH (ARALL)

9. Medrwn Mon.
Cynllunio lle canolbarth (Place Shaping)
Diweddariad ar y Rhaglen Llunio Lle. Wedi cyflogi dau Swyddog Cynnwys Cymunedau dechrau 7ed Ionawr 2020. Derbyn.

10. Un Llais Cymru.
Atgoffa am Pwyllgor Ardal Ynys Mon 23.1.20 yn Canolfan Ebenesr Llangefni, am 7 o`r gloch.
Derbyn

11. Llywodraeth Cymru.
a. Systemau Draenio Cynaliadwy (SDcau): Diwygiad Arfaethedig i Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) 2018. Gwybodaeth. Derbyn.

b. Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau a Phenderfyniadau Gwaredu (Cymru) 2015. Copi o`r llythyr i Mrs Gaynor Jones. Derbyn.

12. Owl. Gwylio Trosedd Gogledd Cymru. Gadael.

13. Ciosg. Llynfaes 01407 720317.
BT eisiau`r Cyngor ei fabwysiadu am daliad o £1.00. Hefyd yn amgauedig cytuned am werthu a prynnu ciosg ffon i Awdurdodau Lleol.
Wedi darllen y Gytundeb ar amodau sydd ynddi, penderfynwyd i wrthod y cyfle. Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng R M Roberts. Unfrydol.

14. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.

15. Valley Wings. Nadolig 2019. Cylchgrawn. Derbyn.

RHODDION

16. Dim.

PLWYFOL.

17. Cyng D T Roberts yn edrych a ydyw yn bosib cael Bodedern a`r yr arwyddbost yn Bodffordd.

18. Anfon nodyn i Cyng H G Owen sydd yn dechrau triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. I diolch iddo am ei gyfraniad i`r Cyngor a`r Ardal ar hyd y blynyddoedd a dymuno gwellhad buan. Cynnig E W Roberts, eilio D T Roberts.
Dywedodd Cyng E Williams a E W Roberts y bydden nhw`n yn anfon gair.

MATERION ARIANNOL:

19. Cyfrif Rhedegol £9,272.06. (Preseb 3. £3,483.33)

TALIADAU:

20. Clerc £220.83.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng E Williams.